



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Jess Daniel - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424103)

Bydd cyfarfod rhithwir y pwyllgor cynllunio a datblygu yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 16EG GORFFENNAF, 2020** am **3.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 14 GORFFENNAF 2020, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2020 yn rhai cywir.

7 - 10

CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU

5. CAIS RHIF: 18/0880

Newid defnydd llawr cyntaf ac ail lawr yr eiddo, o hen neuadd snwcer (Dosbarth D2) i 22 o fflatiau hunan-gynhaliol preswyl i fyfyrwyr (Sui Generis) a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd disgrifiad diwygiedig ar 03/10/2016) (Caniatâd Adeilad Rhestredig). (Derbyniwyd Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth Diwygiedig ar 12/07/2019)
1 STRYD FOTHERGILL, TREFFOREST, Pontypridd, CF37 1SG.

11 - 24

6. CAIS RHIF: 18/0886

Newid defnydd llawr cyntaf ac ail lawr yr eiddo, o hen neuadd snwcer (Dosbarth D2) i 22 o fflatiau hunan-gynhaliol preswyl i fyfyrwyr (Sui Generis) a gwaith cysylltiedig.
1 STRYD FOTHERGILL, TREFFOREST, Pontypridd, CF37 1SG.

25 - 44

7. CAIS RHIF: 19/0323

Cais i gydymffurfio ag Amod 8 o Ganiatâd Cynllunio 13/0466/15 (a gymeradwywyd yn yr apêl APP/L6940/A/14/2212351) i ddarparu cynllun adfer diwygiedig a oedd wedi'i gymeradwyo'n flaenorol o dan Ganiatâd Cydymffurfio ag Amod 17/0525) (Disgrifiad diwygiedig - 10 Ebrill 2019) (Derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol ar 04/09/2019) **(Derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol ar 29/04/20)**
PEN RHEILFFORDD GLOFA'R TŴR, FFORDD MYNYDD Y RHIGOS,
Y RHIGOS, HIRWAUN, ABERDÂR, CF44 9UF.

45 - 54

8. CAIS RHIF: 19/1245

Datblygiad o 25 o dai fforddiadwy a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd Nodyn Technegol Polisi Cynllunio; Atodiad Asesiad Trafnidiaeth; Ymchwiliad Safle; Cynllun Rheoli Ecolegol; Diwygio'r Ffin; a chynlluniau diwygiedig eraill i adlewyrchu'r newidiadau o ran arafu traffig/mynedfa'r safle ar 30 Ionawr 2020)
TIR I'R GOGLEDD O HEOL BRYNNA, BRYNNA.

55 - 86

9. CAIS RHIF: 20/0309

Datblygiad tai fforddiadwy arfaethedig (9 o fflatiau). (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig, sy'n gostwng uchder y rhandy yn y cefn ar 3 Mehefin 2020).
SWYDDFA DDOSBARTHU'R POST BRENHINOL - TREORCI, 22-23 Y STRYD FAWR, TREORCI, CF42 6NP.

87 - 100

10. CAIS RHIF: 20/0348

Troi hen Gapel ac Ystafell Ddosbarth yn 1 x fflat ag un llofft a 4 x fflat â dwy lofft (ailymgyngori yn dilyn cywiro'r cyfeiriad)
CAPEL NODDFA, Y STRYD FAWR, YNYS-Y-BŴL, PONTYPRIDD.

101 - 110

**ARGYMHELLION I'W GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION
FFYNIANT A DATBLYGU**

11. CAIS RHIF: 20/0146

Gofod parcio i gwsmeriaid a derbynfa ar y llawr cyntaf (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 29/5/2020).
TŶ YSGOL BLAEN-CWM, HEOL HENDRE-WEN, BLAEN-CWM,
TREHERBERT, CF42 5DR.

111 - 118

CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

12. CAIS RHIF: 19/0882

Ffermdy dros dro, cabanau gwersylla moethus, storfa a gwaith datblygu cysylltiedig (Derbyniwyd y cynllun safle diwygiedig, disgrifiad o'r cabanau gwersylla moethus a'r storfa a'r newidiadau o ran eu lleoliad ar 10 ac 16 Mawrth 2020)

FFERM FERNHILL, STRYD CAROLINE, BLAENRHONDDA, CF42 5RY

119 - 148

ARCHWILIAD O'R SAFLE

13. CAIS RHIF: 19/0829

Trosi eglwys yn 8 fflat (derbyniwyd cynllun parcio diwygiedig ar 06/12/2019)

EGLWYS SAESNEG BEDYDDWYR CALFARI, TERAS Y CLOGWYN, TREFFOREST, PONTYPRIDD

149 - 162

14. CAIS RHIF: 20/0006

Adeiladu annedd ar wahân, sawl haen ac iddi dair ystafell wely.

TIR YN NHERAS GLANFFRWD, YNYS-Y-BŴL, PONTYPRIDD, CF37 3LW

163 - 176

15. CAIS RHIF: 20/0006

Amrywio'r diwygiadau i amod 2 o'r cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo (cais blaenorol - 15/1007/10) er mwyn symud tŷ a man parcio. (Derbyniwyd CMRA ar 7 Mawrth 2020)

Tir gyferbyn â Stryd Jestyn, y Porth.

177 - 188

ADRODDIAD ER GWYBODAETH

16. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 22/06/20 – 03/07/20.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.

Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.

Trosolwg o Achosion Gorfodi.

17. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd W Owen,
Y Cynghorydd R Yeo, Y Cynghorydd D Williams ac Y Cynghorydd S Powderhill

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Pennaeth Cynllunio
Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol